Mae Skype yn ap poblogaidd ar gyfer gwneud galwadau drwy'r rhyngrwyd ac yn un o'r ffyrdd hawsaf a rhataf i gadw mewn cysylltiad ag eraill ledled y byd.

Canllawiau:

1. Mae'n hawdd dechrau - yn gyntaf bydd angen i chi agor cyfrif, ewch i hafan Skype a chliciwch ar "Join us" yn y gornel dde uchaf.

2. Dewiswch sut rydych chi am fewngofnodi. Gallwch ddewis mewngofnodi drwy ddefnyddio'ch cyfrif Facebook neu Microsoft presennol, neu gallwch greu cyfrif yn benodol ar gyfer Skype.

3. Ewch at i lawrlwytho Skype.

4. Yna, bydd angen i chi wirio a yw eich offer sain a fideo yn gweithio, gosod eich proffil personol, newid eich llun proffil ac enw os oes angen.

5. Gallwch ddewis osod eich statws i roi gwybod i'ch ffrindiau ar Skype p'un a ydych ar gael i sgwrsio ai peidio. Gallwch ddewis statws ('online', 'away', 'do not disturbed', 'invisible' neu 'offline') i ymddangos wrth ymyl eich enw.

6. Ar ôl i chi fewngofnodi i'r ap Skype, byddwch yn gweld y neges "Find your friends and say hello". Gallwch chwilio am eich cysylltiadau Skype yn eich llyfr cyfeiriadau drwy ddewis "Search address book", neu gallwch chwilio amdanynt drwy deipio eu henw Skype neu gyfeiriad e-bost.

7. Negeseuon - I anfon a derbyn negeseuon gwib, cliciwch ar gyswllt yn eich rhestr a theipio yn y maes testun lle mae eich cyrchwr.

Galwad Fideo - Cliciwch ar y botwm "Video Call", sydd i'r chwith o'r botwm 'call'.

Ewch ati i gysylltu 😊